



**CYNLLUN GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG**

**Ionawr 2017**

**Paratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**

**(Rhif 2) 2016**

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016). Rhestrir y Safonau sy'n berthnasol i S4C ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn yr 'Hysbysiad Cydymffurfio' (sydd ar gael ar [www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru)).
- 1.2 Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan S4C ddyletswydd i gydymffurfio â nhw – 151, 153, 157, 159 ac 165. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut y bwriadwn gydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi a'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i S4C. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer hybu a hwyluso'r safonau cyflenwi gwasanaethau ac ar gyfer goruchwyllo'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau llunio polisi yr ydyn ni o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.
- 1.3 Mae S4C yn ymrwymedig i ddatblygu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac i helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae bod yn 'Gymraeg a Chymreig' yn un o'n gwerthoedd craidd: "Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Rydym yn dathlu diwylliant a bywydau pobl ein gwlad trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ac yn annog pawb sy'n ymdrechu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo lefel eu rhuglder."
- 1.4 Mae S4C eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o ofynion Safonau'r Gymraeg yn rhinwedd ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Nodwn isod y mesurau ychwanegol a roddwyd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd sy'n deillio o'r Safonau.

## 2. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau - Cynllun Gweithredu

Maes	Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio	Camau Gweithredu
<b>Gohebiaeth</b> (1, 4, 5, 6, 7)	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol a chyhoeddi Canllawiau Mewnol i Staff.</p> <p>Bydd llofnod ebyst staff yn cynnwys y geiriad canlynol:</p> <p><i>"Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.</i></p> <p><i>You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays."</i></p>	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Creu llofnod e-bost / geiriad safonol ar gyfer gohebiaeth</li><li>• Creu Canllawiau Mewnol Staff</li><li>• Sefydlu trefn fewnol ar gyfer cyfieithu negeseuon</li><li>• Trefnu hyfforddiant staff</li><li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu yn benodol</li><li>• Gosod y canllawiau ar y fewnrwyd</li><li>• Cydweithio gyda'r Adran TG mewn cysylltiad â llofnod e-bost</li></ul> <p>TG</p>

	<p>Byddwn hefyd yn sicrhau bod y geiriad uchod yn ymddangos ar ohebiaeth bapur.</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu llofnod e-bost newydd i staff</li> </ul>
<p><b>Galwadau ffôn</b> (8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol a chyhoeddi Canllawiau Mewnol i Staff.</p> <p>Bydd y rhan fwyaf helaeth o alwadau ffôn S4C yn mynd trwodd i Gwifren Gwylwyr, sydd â'r holl staff yn siarad Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod staff di-Gymraeg yn swyddfeydd S4C yn cynnig trosglwyddo galwad i aelod o staff Cymraeg lle bo angen.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod staff S4C yn ateb y ffôn yn ddwyieithog trwy ddweud "es-pedwar-ec / es-four-see" ac yna enw'r adran lle'n briodol.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod swyddogion diogelwch yn swyddfa S4C sy'n ateb y ffôn y tu allan i oriau swyddfa yn trosglwyddo galwadau i Gwifren Gwylwyr.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod negeseuon a gaiff eu cyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol am Gwifren Gwylwyr yn sicrhau bod graffeg yn ymddangos sy'n nodi bod croeso i gysylltu â S4C yn Gymraeg.</p>	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Canllawiau Mewnol Staff</li> <li>• Sefydlu trefn fewnol ar gyfer trosglwyddo galwadau</li> <li>• Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu, Gwifren Gwylwyr, a staff y dderbynfa yn benodol</li> <li>• Gosod y canllawiau ar y fewnrwyd</li> <li>• Creu graffeg i gyd-fynd gyda negeseuon sy'n cyhoeddi rhif Gwifren Gwylwyr</li> </ul> <p>Gwasanaethau Tŷ</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu o safbwynt galwadau tu allan i oriau swyddfa.</li> <li>• Sicrhau neges ddwyieithog ar y peiriant ateb.</li> <li>• Angen ystyried a hysbysu'r Swyddogion Diogelwch ynglŷn â sut i ddelio â galwadau</li> </ul>
<p><b>Cyfarfodydd</b> (24, 24A, 25, 25D, 25, 27, 28, 29, 30)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol a chyhoeddi Canllawiau Mewnol i Staff.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn cysylltu â'r Adran</p>	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Canllawiau Mewnol Staff</li> <li>• Sefydlu trefn fewnol ar gyfer trefnu cyfarfodydd</li> <li>• Trefnu hyfforddiant staff</li> </ul>

	<p>Gyfathrebu cyn mynd ati i drefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn sicrhau cydymffurfedd.</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu yn benodol</li> <li>• Gosod y canllawiau ar y fewnwyd</li> </ul>
<p><b>Digwyddiadau cyhoeddus</b> (31, 32)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol a chyhoeddi Canllawiau Mewnol i Staff.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn cysylltu â'r Adran Gyfathrebu cyn mynd ati i drefnu digwyddiad cyhoeddus er mwyn sicrhau cydymffurfedd a chysondeb.</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Canllawiau Mewnol Staff</li> <li>• Sefydlu trefn fewnol ar gyfer trefnu digwyddiadau cyhoeddus</li> <li>• Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu yn benodol</li> <li>• Gosod y canllawiau ar y fewnwyd</li> </ul>
<p><b>Dogfennau cyhoeddus</b> (33, 34, 36, 44, 45, 46, 46A, 46B, 47)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol a chyhoeddi Canllawiau Mewnol i Staff.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod unrhyw fersiwn Saesneg o ddogfen yn nodi'r geiriad: "<i>Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh</i>"</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Canllawiau Mewnol Staff</li> <li>• Sefydlu trefn fewnol ar gyfer cyfieithu dogfennau</li> <li>• Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu yn benodol</li> <li>• Gosod y canllawiau ar y fewnwyd</li> </ul>
<p><b>Gwefannau a</b></p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o</p>	<p>Cyfathrebu</p>

<p><b>Deunydd Digidol</b> (48, 51, 52, 53, 54, 55)</p>	<p>ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod unrhyw bolisi ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn nodi'r gofynion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Briffio'r Adran Gyfathrebu, Adran y We a Digidol yn benodol</li> <li>• Cynnwys y gofynion perthnasol o fewn unrhyw Bolisi Cyfryngau cymdeithasol</li> </ul>
<p><b>Peiriannau Hunanwasanaeth</b> (56)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth yn ateb y gofynion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb yr Adran Gyfathrebu, Gwasanaethau Tŷ</li> </ul>
<p><b>Arwyddion</b> (57, 58, 59)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod unrhyw arwyddion yn cael eu gwirio er mwyn sicrhau cydymffurfedd.</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	<p>Cyfathrebu / Gwasanaethau Tŷ</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu templed ar gyfer arwyddion dros dro</li> <li>• Cyhoeddi'r templed arwyddion ar y fewnwyd</li> <li>• Briffio'r Adran Gwasanaethau Tŷ yn benodol</li> </ul>
<p><b>Gwasanaeth Derbynfa</b> (60, 63, 64)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff y dderbynfa yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.</p> <p>Byddwn yn archebu arwyddion i ddatgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.</p> <p>Byddwn yn archebu bathodynau gwaith i nodi bod staff y dderbynfa'n medru'r Gymraeg.</p>	<p>Cyfathrebu / Gwasanaethau Tŷ</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archebu a gosod arwydd yn y dderbynfa yn swyddfa Caerdydd a Chaernarfon</li> <li>• Archebu bathodynau a sicrhau bod staff derbynfa yn eu gwisgo</li> <li>• Briffio staff y dderbynfa yn benodol</li> </ul>
<p><b>Hysbysiadau Cyhoeddus a Thendro</b> (65, 66, 72, 73, 73A, 75, 76)</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.</p> <p>Byddwn yn addasu dogfennau templed safonol i nodi'r gofynion, gan gynnwys geiriad i ddatgan y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.</p>	<p>Cyfreithiol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Addasu dogfennau tendro safonol</li> <li>• Addasu canllawiau tendro mewnol</li> </ul>

	<p>Byddwn yn addasu canllawiau tendro mewnol i nodi'r gofynion.</p> <p>Mae gan S4C gytundeb fframwaith gyda chwmnïau cyfieithu a ellir darparu gwasanaeth cyfieithu i S4C lle bo angen.</p>	
<b>Hybu Gwasanaeth Cymraeg a Hunaniaeth Gorfforaethol</b> (77, 78, 79)	Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb yr Adran Gyfathrebu</li> </ul>
<b>Cyrsiau Addysg</b> (80)	Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb yr Adran Gyfathrebu</li> </ul>
<b>System Annerch Gyhoeddus</b> (83)	Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb Gwasanaethau Tŷ</li> </ul>

### 3. Hybu a Hwyluso

#### 3.1 Hyrwyddo Gwasanaethau

- 3.1.1 Ers mabwysiadu ei Chynllun Iaith Gymraeg er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae S4C gweithredu'r egwyddor y bydd, wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Wrth gydymffurfio â'r gofynion newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd S4C yn parhau i lynu wrth yr egwyddor graidd honno.
- 3.1.2 Mae S4C yn ymrwymedig i ddatblygu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac i helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae bod yn 'Gymraeg a Chymreig' yn un o'n gwerthoedd craidd: "Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Rydym yn dathlu diwylliant a bywydau pobl ein gwlad trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ac yn annog pawb sy'n ymdrechu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo lefel eu rhuglder."

3.1.3 Mae hunaniaeth gorfforaethol S4C erioed wedi bod yn gwbl Gymraeg ei natur neu'n ddwyieithog. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn parhau i ymddangos yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Yn wir, ni yw'r unig ddarlledwr Cymraeg yn y byd. Rydym felly'n hyderus bod y cyhoedd yng Nghymru yn ymwybodol o ethos Cymraeg S4C a'n bod yn croesawu cyfathrebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn gwneud ymdrech i hyrwyddo ein gwasanaethau fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen.

## 3.2 Ymwybyddiaeth Staff

3.2.1 Er mwyn hybu a hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau, mae S4C wedi llunio a diweddarau ei chanllawiau i staff. Yn eu plith mae:

- Canllawiau Mewnol Staff
- Nodyn ar y Fframwaith Cyfieithu
- Canllawiau ar Gynnal Cyfarfodydd
- Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol

3.2.2 Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff (gan gynnwys staff dros dro) ar fewnrwyd S4C ac fe'u hyrwyddwyd i'r holl staff dros e-bost.

3.2.3 Yn ogystal â'r dogfennau uchod, mae gan S4C adran ar ei mewnwyd sy'n cynnwys templedi ar gyfer arwyddion, llofnod ebyst, negeseuon 'allan o'r swyddfa' a chanllawiau amrywiol eraill ar gyfer hwyluso gweithredu'r Safonau a'r defnydd o'r Gymraeg yn S4C.

3.2.4 Cyn derbyn yr Hysbysiad Terfynol, fe wnaeth Adran Gyfreithiol S4C gynnal cyfarfodydd mewnol gyda phenaethiaid adran perthnasol er mwyn trafod ac ystyried y safonau perthnasol. Roedd hyn yn gyfle i'r adrannau gwahanol fynegi unrhyw bryderon am Safonau unigol ac i ystyried y ffyrdd gorau o weithredu'r Safonau o fewn yr adrannau gwahanol.

3.2.5 Mae S4C wedi cynnal sesiwn Cyflwyniad i'r Safonau Iaith i'r holl staff, ac mae penaethiaid adran wedi hyrwyddo'r gofynion yn eu Briffs misol i'w tîmau. Yn ogystal, mae pob adran wedi derbyn hyfforddiant sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer gofynion eu hadrannau nhw.

3.2.6 Bydd staff newydd yn derbyn gwybodaeth am ofynion Safonau'r Gymraeg yn ystod y broses ymsefydlu ac yn derbyn hyfforddiant perthnasol yn ôl y gofyn.

- 3.2.7 Trwy sicrhau bod staff (gan gynnwys staff dros dro a staff newydd) yn ymwybodol o'r gofynion ac yn eu gweithredu ar bob adeg, bydd hyn yn anorfod yn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir gan S4C wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn cael eu hybu a'u hyrwyddo.
- 3.2.8 Yn ogystal â'r uchod, bydd S4C yn parhau i gynorthwyo staff i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy wneud y canlynol (ymysg eraill). Trwy greu ethos Cymraeg yn fewnol ymysg staff, gobaith S4C yw y bydd hyn yn hybu a hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg S4C yn allanol:
- Hwyluso mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol o ran cyfraniadau llafar, agendau a chofnodion;
  - Cyhoeddi ffurflenni, llythyron safonol a thempledi electronig mewnol yn ddwyieithog;
  - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth e-bostio yn fewnol;
  - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gohebiaeth seml, yn fewnol a gyda'r cyhoedd, drwy ddrafftio yn Gymraeg yn gyntaf.
- 3.2.9 Byddwn hefyd yn parhau i geisio cynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth trwy'r Gymraeg gan:
- Gynyddu'r arferiad o ysgrifennu negeseuon e-bost yn Gymraeg;
  - Defnyddio pecyn meddalwedd Cysgliad, sy'n cynnwys gwirydd sillafu Cymraeg (CySill) ac adnodd geiriadurol (CysGair) ar gyfrifiaduron personol;
  - Dysgu sut i osod acenion (e.e. to bach) mewn testunau Cymraeg;
  - Darparu lle / llefydd ar y fewnrwyd neu system fewnol S4C i osod cronfa o gyfieithiadau parod, boed yn ddogfennau, llythyrau safonol / ffurflenni neu ymadroddion defnyddiol; dolenni cyswllt ag adnoddau geirfaol a gramadegol; a dolenni cyswllt ag adnoddau dysgu ar-lein;
  - Gosod rhyngwynebau Cymraeg ar gyfrifiaduron personol, lle bo'r fath rhyngwynebau'n bodoli.

### 3.3 Cyfieithu a Chyngor

- 3.3.1 Mae gan S4C gytundeb fframwaith cyfieithu gyda nifer o gyfieithwyr proffesiynol a all ddarparu gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i S4C, ar fyr rybudd os oes angen. Bydd hyn yn hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog ac yn sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ddelio â'r cyhoedd mewn modd dwyieithog.
- 3.3.2 Mae Adran Gyfreithiol S4C bob amser ar gael i gynnig arweiniad a chyngor i staff S4C ar bob agwedd o gydymffurfio â'r Safonau.

### 3.4 Staffio



- 3.4.1 Bydd S4C yn parhau i sicrhau fod siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau priodol ar gael i gyfathrebu â'r cyhoedd. Bydd S4C yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ac fe nodir hyn yn yr hysbysiadau swyddi perthnasol.
- 3.4.2 Bydd S4C yn sicrhau bod pob person sy'n gyfrifol am benodi staff yn S4C yn ymwybodol o ofynion y Safonau perthnasol ac yn asesu'r angen am ruglder yn y Gymraeg cyn penodi ar gyfer unrhyw swydd yn S4C.
- 3.4.3 Oherwydd natur S4C a'i hamcanion, mae'n amlwg y bydd S4C yn ystyried gallu ieithyddol yn un o'r nifer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff. Nodir hynny yn yr hysbysebion ac yn y disgrifiadau swyddi. Bydd ffurflenni cais S4C yn ddwyieithog a'r cyfathrebu gyda phob ymgeisydd wedi hynny yn ôl iaith ddewisol yr unigolyn.
- 3.4.4 Lle bo S4C yn ystyried y gallu i siarad yr iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd benodol ond heb lwyddo i ddenu ymgeisydd cymwys sy'n siarad Cymraeg, yna fe fydd S4C yn ystyried cynnig y swydd i ymgeisydd di-Gymraeg ond ar yr amod ei fod ef neu hi yn cyrraedd lefel foddhaol o ruglder mewn cyfnod penodol.
- 3.4.5 Bydd S4C yn mabwysiadu system asesu gydnabyddedig i fesur rhuglder lle bo galw.
- 3.4.6 Bydd S4C yn annog a chefnogi ei staff i ddysgu Cymraeg ac yn sicrhau fod gwersi dysgu Cymraeg ar gael i'r aelodau hynny o'i staff sy'n dymuno dysgu o'r newydd neu loywi eu hiaith, p'un a yw eu swyddi yn galw am wybodaeth o'r Gymraeg ai peidio.
- 3.4.7 Trwy sicrhau staff digonol, a chodi hyder a safon iaith Gymraeg ymysg staff sy'n dysgu neu'n glowyi'r iaith, byddwn yn hwyluso darpariaeth yr holl wasanaethau perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **3.5 Gweithio mewn partneriaeth**

- 3.5.1 Pan fyddwn yn gweithredu o fewn partneriaeth, byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Gweithredu hwn.
- 3.5.2 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, lle bo hynny'n bosib bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio a'r Cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio a'r Cynllun hwn. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo darpariaeth o wasanaethau Cymraeg y tu hwnt i S4C.

## **4 Safonau Lluo Polisi - Cynllun Gweithredu**

<b>Maes</b>	<b>Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio</b>	<b>Camau Gweithredu</b>
<b>Llunio, adolygu neu addasu polisi</b> (84, 85, 86)	Byddwn yn sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.  Byddwn yn creu ffurflen templed ar gyfer papurau Awdurdod S4C sy'n nodi'r gofynion a sicrhau bod y fath ffurflen yn cael ei chwblhau bob tro bydd angen gwneud penderfyniad polisi o'r fath. Bydd yn sicrhau bod Awdurdod S4C yn gwirio bod S4C yn cydymffurfio â'r gofynion.	Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>Briffio'r Adran Gorfforaethol a Masnachol, y Bwrdd Strategol a Rheolwyr Adran yn benodol</li> </ul> Awdurdod S4C <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod Awdurdod S4C yn ymwybodol o'r gofynion</li> <li>Creu ffurflen templed ar gyfer Awdurdod S4C i wirio cydymffurfiaeth</li> </ul>
<b>Cyhoeddi dogfennau ymgynghori</b> (87, 88, 89)	Byddwn yn sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.	Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>Briffio'r Adran Gorfforaethol a Masnachol, y Bwrdd Strategol a Rheolwyr Adran yn benodol</li> </ul>
<b>Ymchwil polisi</b> (91, 92, 93)	Byddwn yn sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.	Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu hyfforddiant staff</li> <li>Briffio'r Adran Ddadansoddi yn benodol</li> </ul>

## 5. Goruchwylio

- 5.1 Mae'r Cynllun Gweithredu hwn wedi ei gymeradwyo gan Awdurdod S4C sydd wedi rhoi awdurdod llawn i'r Prif Weithredwr a Thim Rheoli S4C ei weithredu. Bydd yr Awdurdod yn monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu hwn.
- 5.2 Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr S4C yn rhoi eu cefnogaeth lawn i'r Cynllun ac yn bwriadu pwysleisio i'r staff eu bod am ei weld yn cael ei weithredu.
- 5.3 Bydd S4C yn sicrhau fod holl egwyddorion y Cynllun Gweithredu hwn yn cael eu cyfathrebu i staff S4C.
- 5.4 Mae gan bob cyfarwyddiaeth yn S4C gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau'r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain sy'n berthnasol i'w gwaith gan gynnwys cadw cofnodion a monitro.
- 5.5 Cyhoeddir y Cynllun hwn i'n staff a'r cyhoedd. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw [www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru).

- 5.6 Bydd ein gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Gweithredu hwn, fel y bo'n briodol.
- 5.7 Aiff Adroddiadau Blynyddol ar y Safonau gerbron Awdurdod S4C cyn eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg, i sicrhau bod Awdurdod S4C yn ymwybodol o'r cynnydd a wneir ynghlwm â Safonau'r Gymraeg ac amlygu unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.

## 6. Safonau Gweithredu

### Cynllun Gweithredu

Maes	Sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio	Camau Gweithredu
<b>Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol</b> (94)	Byddwn yn datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith a chyhoeddi y ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnwyd.	Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Adran Gyfathrebu i ddrafftio a chyhoeddi polisi yn fewnol</li> </ul>
<b>Dogfennau Cyflogaeth</b> (95-99)	Byddwn yn parhau i ofyn i bob aelod o staff newydd a ydynt yn dymuno derbyn cytundeb cyflogaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn parhau i ofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth berthnasol yn ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn parhau i ofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth berthnasol yn ymwneud â'u gofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad, a chynlluniau gyrfa yn y Gymraeg ac yn darparu yn unol â'u dewis iaith.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfrifoldeb Adnoddau Dynol</li> </ul>
<b>Ffurflenni Cyflogaeth</b> (100)	Byddwn yn gweithio ar sicrhau bod ein meddalwedd Adnoddau Dynol mewnol yn gwbl ddwyieithog.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adran Adnoddau Dynol i gyd-weithio gyda'r Adran TG er mwyn ymchwilio i'r opsiynau meddalwedd a sicrhau cydymffurfiaeth erbyn 25 Gorffennaf 2018</li> </ul>

<b>Polisiau Adnoddau Dynol</b> (101-107)	Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein polisiau perthnasol yn ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb Adnoddau Dynol</li> </ul>
<b>Cwynion a Disgyblu</b> (108, 108A, 110-112A, 114, 115)	<p>Byddwn yn addasu ein polisiau cyfredol a'n trefn mewnol er mwyn diwallu'r gofynion, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi a Gweithdrefn Disgyblu</li> <li>• Polisi a Gweithdrefn Cwynion</li> <li>• Polisi Datgelu Camymddygiad neu Weithgareddau Amhriodol</li> </ul> <p>Byddwn yn hysbysu staff o'r newidiadau trwy gyhoeddi'r polisiau ar ein mewnwyd a rhoi gwybod i staff fod y polisiau wedi eu diweddarau.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod staff Adran Adnoddau Dynol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion, trwy drefnu hyfforddiant mewnol.</p>	<p>Adnoddau Dynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Addasu'r polisiau perthnasol</li> <li>• Cyhoeddi'r polisiau newydd a hysbysu staff</li> </ul>
<b>Meddalwedd</b> (116)	<p>Byddwn yn parhau i sicrhau bod meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael) ar gyfrifiaduron staff, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Meddalwedd Cysgliad</li> <li>• Rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer Outlook</li> <li>• Rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer Microsoft Word</li> </ul> <p>Byddwn yn cynnwys gwybodaeth ar ein mewnwyd er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a sut i'w osod ar eu cyfrifiaduron.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb yr Adran TG</li> <li>• Adran Gyfathrebu i sicrhau bod canllawiau ar gael ar y fewnwyd</li> </ul>
<b>Mewnwyd</b> (117, 120-122)	Byddwn yn cyhoeddi proses gystadleuol er mwyn gwahodd cwmnïau i gynnig gwasanaeth mewnwyd newydd i S4C er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adran Gyfathrebu i gydweithio gyda'r Adran Gyfreithiol er mwyn cyhoeddi proses gystadleuol a sicrhau cydymffurfiaeth erbyn 25 Gorffennaf 2018</li> </ul>

	Byddwn yn sicrhau y caiff polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ei gyhoeddi ar y fewnwyd, yn ogystal â thudalen sy'n gosod gwybodaeth am y Safonau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adran Gyfathrebu i gyhoeddi'r dogfennau perthnasol</li> </ul>
<b>Asesu Sgiliau Iaith</b> (123)	Byddwn yn gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg ac ymateb i'r Adran Adnoddau Dynol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adran Adnoddau Dynol i anfon e-bost at staff</li> </ul>
<b>Hyfforddiant ac Ymsefydlu</b> (124-129)	<p>Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein Hadran Adnoddau Dynol yn gofyn i staff ym mha iaith yr hoffent dderbyn unrhyw hyfforddiant cyn trefnu'r fath hyfforddiant.</p> <p>Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol fathau o hyfforddiant sydd ar gael trwy'r fewnwyd.</p> <p>Byddwn yn parhau i gynnig gwersi Cymraeg sylfaenol a gwersi gloywi iaith i staff yn rhad ac am ddim yn ystod oriau gwaith.</p> <p>Byddwn yn cynnal hyfforddiant staff er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg, y Safonau a sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> <p>Byddwn yn ychwanegu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fel rhan o broses ymsefydlu staff newydd.</p>	<p>Adnoddau Dynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydweithio gyda'r Adran Gyfathrebu er mwyn sicrhau bod rhestr o'r hyfforddiant sydd ar gael ar y fewnwyd</li> <li>Trefnu cwrs fideo ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff newydd</li> </ul> <p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu hyfforddiant staff ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</li> </ul>
<b>Llofnod Ebyst</b> (130, 131)	Byddwn yn gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg ac ymateb i'r Adran Adnoddau Dynol. Bydd llofnod ebyst staff yn cynnwys geiriad sy'n nodi a ydynt yn rhugl neu'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn parhau i sicrhau bod manylion cyswllt staff yn ymddangos yn ddwyieithog mewn negeseuon ebyst.	<p>Cyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Creu llofnod e-bost newydd</li> <li>Cydweithio gyda'r Adran TG mewn cysylltiad â llofnod e-bost</li> </ul> <p>TG</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu llofnod e-bost newydd i staff</li> </ul>

	Byddwn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofyniad i gynnwys geiriad Cymraeg mewn negeseuon 'allan o'r swyddfa' ac yn cyhoeddi dogfen gyda negeseuon dwyieithog o'r fath ar ein mewnrwyd.	
<b>Aseiad Iaith ar gyfer Swyddi Gwag</b> (132, 132A)	Byddwn yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion trwy drefnu hyfforddiant mewnol.  Byddwn yn sicrhau bod rhestr wirio'r Adran Adnoddau Dynol ar gyfer cyhoeddi swyddi newydd yn cael ei addasu i adlewyrchu'r gofynion.	Adnoddau Dynol <ul style="list-style-type: none"> <li>Addasu'r rhestr wirio i adlewyrchu'r gofynion</li> </ul> Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu hyfforddiant staff</li> </ul>
<b>Hysbysebu Swyddi</b> (133-133B, 135, 136)	Byddwn yn sicrhau bod dogfen dempled 'Manyleb Person' a dogfen dempled 'Ffurflen Gais' yr Adran Adnoddau Dynol yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r gofynion.	Adnoddau Dynol <ul style="list-style-type: none"> <li>Addasu'r dogfennau safonol i adlewyrchu'r gofynion</li> </ul>
<b>Arwyddion yn y Gweithle</b> (137-139)	Byddwn yn sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o ac yn gweithredu'r gofynion trwy drefnu hyfforddiant mewnol.  Byddwn yn creu dogfen sy'n cynnwys geiriad cyffredin ar gyfer arwyddion er mwyn sicrhau bod modd creu a gosod unrhyw arwyddion dros dro ar fyr rybudd.	Cyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Tŷ er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gofynion</li> <li>Creu dogfen gyda geiriad safonol arwyddion a'i gyhoeddi ar y fewnrwyd</li> </ul>